Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Talyllychau Nos Fawrth, 7 Mawrth 2023, am 7.30pm.
Roedd y canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr: Marged Bowen – yn y Gadair. Janine Roberts, John Williams, Jane Morgan – sydd hefyd yn Glerc. Y Cynghorydd Sir Fiona Walters. Ymddiheuriadau: Pauline George a Rhys Williams.
Datganiad o Fuddiant. Jane Morgan (Clerc Dros Dro – Treuliau).
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion yn codi.
Swydd wag y Clerc. Mae'r person oedd â diddordeb bellach wedi nodi nad oes ganddo ddiddordeb yn y swydd mwyach.
Adroddiad diffibriliwr a gafwyd gan Emily Ashdown – Mae'r tair uned yn gyfan ac yn gweithio. Gosodwyd electrodau/padiau newydd ym mhob un o'r tair uned heb unrhyw broblemau. Mae angen tortsh ar uned Eglwys Talyllychau. Mae'r postyn y mae uned Cwm-du ynghlwm wrtho yn eithaf ansefydlog – mae angen gwirio hynny. Gofynnodd "a fyddai'n werth cael set sbâr o electrodau rhag ofn y bydd uned yn cael ei defnyddio?". Roedd cynghorwyr yn meddwl bod hyn yn syniad da a byddai Jane yn trefnu hyn. Bydd Emily yn ceisio dod o hyd i fenig tafladwy yn lle'r rhai sydd ym mhob uned. Cytunwyd i ddiolch i Emily am yr adroddiad a chadarnhau y byddai e-bost tebyg i'r un a gafwyd ganddi unwaith y mis yn wych. Mae D.L. Williams wedi rhoi rhodd o ddwy dortsh a batris ar gyfer yr unedau. Nid yw'r Clerc wedi gallu cysylltu â Rhys Green ynghylch hyfforddiant. Nodwyd bod Cyngor Cymuned Manordeilo a Salem wedi trefnu Sesiynau Hyfforddi am ddim gydag Ambiwlans Sant Ioan ar 14 a 30 Mawrth 2023 rhwng 7pm a 9pm yn Ystafell Ddarllen Manordeilo, Cwmifor. Cytunwyd i gysylltu ag Ambiwlans Sant Ioan i weld a allent gynnal dwy sesiwn yn Ysgol Talyllychau yn y dyfodol agos.
Rhodd o £50.00 tuag at Furlun yr Urdd. Mae'r Clerc wedi cysylltu i weld i bwy y dylai'r siec fod yn daladwy, a bydd yn dod yn ôl i gadarnhau'r talai.
Peilonau arfaethedig trwy Ddyffryn Tywi. Dywedodd y Cynghorydd Sir Fiona Walters fod Bute Energy wedi trefnu digwyddiadau i drigolion gael gwybod rhagor am eu cynigion – Neuadd Ddinesig Llandeilo 25 Mawrth 11-4.
Clwb Rygbi Llanymddyfri 29 Mawrth 2-7.30.
Llwybrau Cae'r Gymuned a datblygiadau yn y dyfodol. Cytunwyd i gynnal cyfarfod safle ar Gae'r Gymuned am 7 o'r gloch ar 4 Ebrill cyn y cyfarfod yn yr Ysgol am 7.30 p.m.
Y Cyfriflenni Banc Diweddaraf a Cheisiadau am Dâl. Y balans ar 28.02.2023 oedd £11,405.49.
Aelodaeth Un Llais Cymru £92.00. Cytunwyd i'w talu.
Ffurflen Optio Allan o'r Lwfans Cynghorwyr mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 wedi'u llenwi gan Marged Bowen, Jane Morgan, Janine Roberts a John Williams
Treuliau'r Clerc. Dosbarthodd Jane Morgan ei rhestr o dreuliau hyd yma a gadael yr ystafell.
Cytunwyd i dalu'r costau sy'n gyfanswm o £117.06.
Daeth Jane Morgan yn ei hôl i'r cyfarfod.
Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd ymlaen trwy e-bost.
Lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar leoliad ysbyty newydd ar gyfer gofal wedi'i gynllunio a gofal brys. Rhwng 23 Chwefror a 19 Mai. Manylion y digwyddiadau galw heibio i'r cyhoedd – a gynhelir rhwng 2 pm a 7pm. Dosbarthwyd Dogfennaeth yr Ymgynghoriad a'r Holiadur ar Safle'r Ysbyty Newydd i bob Cynghorydd.
Cyngor Sir Gâr, 2^{il} Ddrafft o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018-2033. Gwahoddiad I sesiynau galw heibio
Cadarnhad gan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi bod y cosbau am beidio â ffeilio ffurflenni Talu Wrth Ennill ar amser yn y chwarter a ddaeth i ben ar 5 Hydref 2022 wedi'u canslo a bod yr apêl wedi'i datrys.
Cynllunio.

PL/05459 – Gosod boeler nwy, ffliw allanol safonol a gosod rheiddiaduron 2no. – Edwinsford Arms, Talyllychau, Llandeilo, SA19 7YR. Dim gwrthwynebiadau.
PL/05524 – Adeiladu annedd newydd – Gelli Cefn y Rhos, Talyllychau, Llandeilo, SA19 7DS.Dim gwrthwynebiadau.

Tendr i Dorri Glaswellt y Fynwent. Roedd dau dendr wedi dod i law. Tendr gan M & J Maintenance t/as Grave Concerns – chwe thoriad @£600 y toriad, ynghyd â £100.00 ychwanegol ar gyfer torri'r ymylon yn rhan o'r toriad cyntaf yn unig. Tendr gan ASJ Ground Maintenance – Y toriad cyntaf ac ymylon y llwybrau gan gynnwys cael gwared ar yr holl laswellt a sbwriel £550. Y toriadau dilynol unwaith y mis o fis Mai i fis Medi, £400 y toriad unwaith y mis.
Oherwydd y problemau a gafwyd y llynedd a'r help enfawr a roddwyd gan M & J Maintenance a safon uchel eu gwaith, cytunodd pawb y dylid dyfarnu'r contract iddynt eto eleni. Ateb hefyd i'w anfon at ASJ Ground Maintenance i ddiolch yn fawr iawn am y tendr a ddaeth i law ac yn esbonio nad oedd modd i ni ddyfarnu'r contract iddynt y tro hwn ond iddynt dendro eto yn y dyfodol.
Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.
Trafodwyd problem y sbwriel ar hyd ymyl y ffyrdd. Cytunodd y Cynghorydd Sir Ffiona Walters y byddai'n adrodd wrth Gyngor Sir Gâr.
Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.20 p.m. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ysgol Talyllychau am 7.30 p.m, yn dilyn ymweliad â Chae'r Gymuned am 7 p.m.